

## Strategaeth Mwy Abl a Thalentog (MAT)

Cyflwyno'r Rhaglen AUR

Anelu'n  
Uchel at  
Ragoriaeth

### 1. Cyflwyniad

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd dysgu lle bo pob unigolyn yn cael cyflëi i gyflawni ei lawn botensial dysgu. Nod y strategaeth hon yw galluogi dysgwyr sy'n dangos y gallu i gyrraedd safonau eithriadol o uchel i wireddu eu haddewid drwy gyflawni allbynnau rhagorol. Dylid gosod y strategaeth hon of fewn yr ysgogiad cyffredinol o fewn y Grŵp i wella safonau ein holl ddysgwyr gan fod ymchwil yn dangos fod yr ysgolion a'r colegau hynny sy'n rhoi ffocws ar anghenion y dysgwyr mwy abl a thalentog yn creu tuedd ar i fyny tuag at godi safonau cyflawniad yn gyffredinol. Bydd y Grŵp yn gweithredu Rhaglen AUR i gefnogi'r dysgwyr hynny a adnabyddir fel rhai MAT.

### 2. Diffiniad

Defnyddir y term "mwy abl a thalentog" i ddisgrifio'r dysgwyr hynny sy'n dangos potensial i gyflawni safonau uchel, boed mewn cyrsiau academiaidd, galwedigaethol, y celfyddydau neu chwaraeon. Mae'r rhain yn ddysgwyr sy'n cyflawni, neu sydd â'r potensial i gyflawni, ar lefel sy'n sylweddol uwch na gweddill eu cyd-ddysgwyr. Yn aml byddant yn dangos symbyliad a phenderfyniad i lwyddo ac maent yn llawn cymhelliant i gyrraedd y safonau uchaf. Byddant angen cyfleoedd mwy cyfoethog ac estynedig o fewn eu profiadau dysgu er mwyn datblygu eu galluoedd yn y meysydd lle bo ganddynt y potensial i ragori. Byddant angen mwy o ystod a dyfnder yn eu gweithgareddau dysgu na'r hyn a ddarperir yn arferol i'r grŵp o ddysgwyr er mwyn datblygu eu sgiliau academiaidd neu alwedigaethol yn llawn.

Gweithredir y strategaeth hon o fewn cyd-destun Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp, sy'n ymrwymo'r sefydliad i sicrhau fod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyflawni ei lawn botensial waeth beth fo'i gefndir. Dylai staff, felly, fod yn ymwybodol o'r ffaith y gall dysgwyr MAT ddod o unrhyw grŵp cymdeithasol-economaidd a bod ganddynt y gallu i gyrraedd lefelau eithriadol o uchel waeth beth fo eu rhyw, ethnigrwydd, gallu ffisegol neu nodweddion gwarchoddedig eraill a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### 3. Adnabod Dysgwyr MAT ar gyfer y Rhaglen AUR

Er mwyn targedu cefnogaeth yn briodol, mae angen i'r Grŵp weithredu strategaethau effeithiol ar gyfer adnabod yn gynnar y dysgwyr MAT sydd yn addas ar gyfer y Rhaglen AUR. Gall ffynonellau gwybodaeth gynnwys unrhyw rai o'r isod:

- Cyfnewid gwybodaeth gydag ysgolion yn nalgylchoedd y coleg. Gall fod rhai ohonynt yn gweithredu eu rhaglenni MAT eu hunain ac eisoes wedi adnabod y disgyblion hyn
- Tystiolaeth a gasglwyd o'r ddarpariaeth 14-16
- Gwybodaeth gan rieni
- Canlyniadau TGAU
- Sgôr ALIS
- Profion sgiliau neu ymarferol
- Canlyniadau profion cychwynnol/diagnostig
- Aseidiadau gwahaniaethol sy'n rhoi cyfleoedd i ddangos perfformiad ar lefel uchel
- Arsylwadau yn y dosbarth
- Aseidiadau arbenigol

Fodd bynnag, gall gwahanol Feysydd Rhaglen fod angen penderfynu ar eu meini prawf eu hunan ar gyfer adnabod y dysgwyr hyn gan y bydd y rhain yn amrywio yn ôl y sgiliau a'r rhinweddau a ddatblygir.

Er bod adnabod y dysgwyr hyn yn gynnar yn galluogi staff i roi strategaethau cefnogol yn eu lle, er mwyn cael yr effaith mwyaf, dylai prosesau adnabod fod yn rhai parhaol gan nad yw rhai dysgwyr MAT yn hawdd eu hadnabod. Gallant fod yn tangyflawni neu'n arddangos nodweddion afreolus oherwydd diffyg ymestyniad a her. Gallai hyn arwain at eu nodi fel dysgwyr "heriol" neu "mewn risg" yn hytrach na dysgwyr MAT.

### 4. Cefnogaeth ar lefel y sefydliad

Er mwyn sicrhau fod y strategaeth hon yn effeithiol wrth gyrraedd ei hamcanion, bydd yr ymrwymiad i'w gweithredu yn cael ei yrru gan y Tîm Polisi a'i raeadru drwy'r sefydliad. Bydd ymrwymid o'r fath yn cynnwys buddsoddiad yn y strategaeth ar ffurf y canlynol:

- Penodi cyd-lynydd y Grŵp ar gyfer y Rhaglen AUR
- Sicrhau yfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer rheolwyr, cydlynwyr cwricwlwm ac arweinwyr rhaglen perthnasol
- Mynediad at ddeunyddiau dysgu perthnasol gan gynnwys adnoddau dysgu ar-lein sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu annibynnol
- Rhaglen Ysgoloriaethau ar draws y Grŵp a anelir at ddenu dysgwyr gyda'r potensial i fod yn MAT

- Academiâu Chwaraeon i annog cyflawniad rhagorol mewn chwaraeon
- Cyfleoedd i staff ymgysylltu ag asiantaethau allanol e.e. sefydliadau AU, y celfyddydau, busnes ac ati
- Darpariaeth ar gyfer amser ychwanegol i gefnogi dysgwyr y Rhaglen AUR
- Mynediad at weithgareddau allgyrsiol e.e. teithiau addysgiadol
- Cyfleoedd y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad i reolwyr ac arweinwyr rhaglen rannu arfer orau wrth ddarparu ar gyfer dysgwyr MAT

## 5. Cynlluniau Gweithredu

Mae cynllunio effeithiol yn hanfodol wrth gyfarfod ag anghenion dysgwyr y rhaglen AUR. Yn ogystal â gosod targedi neu raddau heriol, dylai cynlluniau gweithredu nodi sut y bydd gweithgareddau digon heriol yn cael eu cynnwys mewn sesiynau dysgu, aseiniadau a gwaith cartref. Bydd rhain yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr berfformio y tu hwnt i'r lefel a ddisgwyllir gan eu cyd-fyfyrwyr, Dylai'r cynlluniau gweithredu hyn fod yn uchelgeisiol ond yn realistig a dylid cynnwys y dysgwyr yn y broses o osod eu targedi eu hunain. Dylent hefyd gymryd i ystyriaeth ddewis arddull ddysgu'r unigolyn, gan gydnabod fod gan fyfyrwyr abl a thalentog gryfderau sylweddol ond fe all fod ganddynt hefyd wendidau neu anawsterau. Mae darpariaeth MAT effeithiol yn ganlyniad edrych y tu hwnt i'r norm a chynllunio i ymateb i anghenion mewn ffordd sy'n symblu cyflawniad drwy gyynnwys, cymell ac ysbrydoli'r dysgwr.

## 6. Dysgu ac Addysgu

Mae gwahaniaethu effeithiol yn ganolog i strategaeth MAT lwyddiannus. Lle bo athrawon yn darparu ar gyfer anghenion dysgwyr ar y Rhaglen AUR, rhaid adeiladu gwahaniaethiad sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer cyflawni ar lefel uchel i mewn i gynlluniau gwaith, cynlluniau sesiynau unigol a strategaethau asesu. Dylai'r rhain annog datblygu mwy o ddyfnder i'r broses ddysgu drwy e.e.

- Mwy o adlewyrchu
- Archwilio gwahanol safbwyntiau
- Ystyried cwestiynau neu gysyniadau anodd
- Ffurio barn
- Datrys ac ymholi problemau
- Gwneud cysylltiadau rhwng dysgu blaenorol a phresennol
- Defnydd cyson o sgiliau meddwl uwch (dadansoddi, synthesis a gwerthuso)
- Defnydd o sgiliau ymarferol neu dechnegol cymhleth
- Datblygu gwell gymhwysedd yn y defnydd o offer neu gyfarpar arbenigol
- Cyflawni allbynnau ar lefel uwch boed yn rhai academaidd neu ymarferol

Mae yna amrywiol ddulliau o wahaniaethu sy'n addas ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd dysgu ac addysgu a bydd angen i athrawon ganfod y dulliau gorau sy'n gweithio i'w maes pynciol a grŵp o ddysgwyr. Fodd bynnag, dyma rai enghreifftiau o'r modd y gellir addas strategaethau dysgu ac addysgu i herio ac ymestyn dysgwyr AUR:

- Gosod tasg gyffredin sy'n gofyn am wahanol ymatebion ac allbynnau
- Gosod tasgau sy'n amrywio o ran cymhlethdod (e.e. ymarferiadau wedi eu graddio) fel y gall dysgwyr abl ddechrau ar bwynt priodol a symud ymlaen yn bellach
- Gosod amrywiaeth o dasgau o wahanol safon yn gysylltiedig â thema gyffredin
- Rhoi cyfle i ddysgwyr AUR ddylunio tasgau drostynt eu hunain
- Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr mwy abl ddatblygu tasgau i lefel uwch drwy waith cartref gwahaniaethol/ychwanegol
- Gosod gwaith tîm neu brosiect sy'n gofyn am ystod o sgiliau a galluoedd ar wahanol lefelau
- Rhoi cyfle ar gyfer arwain/cynllunio gweithgareddau grŵp
- Defnydd o gwestiynu heriol/sy'n procio

Fodd bynnag, wrth gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol, dylai staff fod yn sensitif i anghenion eu dysgwyr AUR. Gall y rhai sy'n cyflawni'n uchel sefyll allan ac mae'n bosib na fydd rhai pobl ifanc yn croesawu sylw o'r fath, yn arbennig ar adeg o'u bywydau pan fo cael eu derbyn gan eu cyd-fyfyrwyr yn hynod bwysig iddynt.

## 7. Adnoddau dysgu

Gall darparu deunyddiau ac offer o safon uchel wella'n sylweddol y cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr AUR. Maent yn hwyluso gwahaniaethu effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r amgylchedd dysgu a gallant chwarae rhan hanfodol wrth alluogi dysgwyr AUR i gyrraedd eu lefelau cyflawniad uchaf. Gallai'r adnoddau hyn gynnwys offer a meddalwedd aml-gyfrwng, adnoddau e-ddysgu, offer a chyfarpar arbenigol, deunyddiau celf, offerynnau cerdd, offer chwaraeon ac ati.

Lle bo'n bosib, dylai Rheolwyr Rhaglen gynllunio i ddarparu adnoddau o'r fath fel rhan o'r broses gyllido. Fodd bynnag, lle nad yw'r gyllideb Maes Rhaglen yn caniatáu ar gyfer y gwariant ychwanegol, gall y rheolwr, lle'n briodol, wneud cais am gefnogaeth gyllidol o gyllideb ganolog y Grŵp.

## 8. Gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol

Mae dysgwyr abl a thalentog yn mwynhau ac yn cael budd o gydweithio gydag eraill o allu tebyg. Mae dysgu ochr-yn-ochr â dysgwyr galluog eraill yn medru eu hymestyn a rhoi iddynt y cymhelliant i lwyddo ar lefelau uwch. Drwy'r Rhaglen AUR, bydd cyfleoedd o'r fath yn cael

eu hwyluso lle bynnag y bo'n bosibl e.e. drwy grwpiau tiwtorial arbennig sy'n dod â dysgwyr AUR at ei gilydd, o fewn Bagloriaeth Cymru, cystadlaethau sgiliau a gweithgareddau ôl-goleg.

Darperir rhaglen o weithgareddau traws-Grŵp i ddysgwyr o fewn y rhaglen AUR, gan roi cyfle i ddysgwyr galluog gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol yn gysylltiedig â meysydd dysgu e.e. pynciau STEM, crefftau medrus, celfyddydau creadigol, llenyddiaeth ac ati.

Defnyddir staff AU y Grŵp i ddarparu gweithgareddau heriol ychwanegol sy'n creu pont i Addysg Uwch ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gwneud cais i'r Prifysgolion gorau neu lle bo gofyn am bwytiau UCAS eithriadol o uchel.

Gall pob dysgwr, yn enwedig y rhai ar y rhaglen AUR, elwa o gymryd rhan mewn darlithiau boed yn rhai go iawn neu'n rhithiol, yn ogystal â gweithgareddau cyfoethogi eraill a dylid cynnig y rhain lle bynnag y bo'n bosibl. Hefyd dylid cynllunio gweithgareddau allgyrsiol megis teithiau addysgol i amgueddfeydd, orielau, lleoliadau gwaith, arddangosfeydd ac ati lle bo hynny'n briodol.

Dylid annog dysgwyr AUR i gymryd rhan mewn cystadlaethau perthnasol er mwyn rhoi iddynt nodau uwch i anelu atynt. O ran myfyrwyr galwedigaethol gallai'r rhain fod yn gystadlaethau UK Skills rhanbarthol neu genedlaethol a fydd yn gofyn am fewnbnw hyfforddiant ychwanegol gan staff dysgu. Gall cystadlaethau menter sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaid fod yn addas i eraill sy'n ddysgwyr AUR, a dylid annog dysgwyr academiaidd i ymgeisio am ysgoloriaethau prifysgolion. Dylai staff dysgu roi cyngor a chefnogaeth i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y cystadlaethau, arholiadau mynediad neu gyfweiliadau.

## 9. Dilyniant

Dylai dysgwyr ar y rhaglen AUR gael eu hannog i fod yn uchelgeisiol gyda'r nod o symud ymlaen o'u cyrsiau coleg i'r lefel nesaf yn eu gyrfa addysgol ar y pwynt uchaf posibl. Bydd staff Gwasanaethau Dysgwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad i ddysgwyr AUR ynghylch y camau priodol sydd angen iddynt eu cymryd mewn perthynas â dilyniant e.e. ceisiadau, arholiadau mynediad, profion sgiliau, mynediad at Brentisiaethau Uwch ac ati.

## 10. Monitro a Gwerthuso

Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei fonitro drwy ystyried y dangosyddion canlynol:

- Nifer y dysgwyr a adnabyddir fel rhai MAT
- Nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen AUR

- Nifer yn cyflawni'r graddau uchaf (A\*/Rhagoriaeth)
- Nifer y dysgwyr sy'n perfformio'n well na'u graddau targed/ALIS
- Nifer y dysgwyr sy'n ennill cystadlaethau cenedlaethol
- Nifer y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i'r prifysgolion gorau
- Nifer y dysgwyr sy'n ennill ysgoloriaethau gan brifysgolion
- Nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i Brentisiaethau Uwch

**Dyddiad Adolygu'r strategaeth: Medi 2017**